Rhif: **WG25265**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder

Dyddiad cyhoeddi: **Mai 2015**

# Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob corff sy'n ymwneud â'r maes addysg, gan gynnwys undebau, colegau addysg bellach (AB), asiantaethau cyflogaeth, awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant addysg a sefydliadau dyfarnu. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ac adborth am yr ymgynghoriad ar y cynigion i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder mewn asesiadau athrawon. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Olga Lewis<br>Y Gangen Asesu<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 3222<br>e-bost: assessment@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder* (Llywodraeth Cymru, 2014) |

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25265 ISBN digidol 978 1 4734 3459 2

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Crynodeb o’r ymatebion** **3**
Cwestiwn 1 3
Ymateb Llywodraeth Cymru 4

Cwestiwn 2 4
Ymateb Llywodraeth Cymru 5

Cwestiwn 3 5
Ymateb Llywodraeth Cymru 6

Cwestiwn 4 7
Ymateb Llywodraeth Cymru 8

Cwestiwn 5 8
Ymateb Llywodraeth Cymru 9

Cwestiwn 6 9
Ymateb Llywodraeth Cymru 10

Cwestiwn 7 11
Model asesu 11
Disgrifiadau lefel 11
Dulliau asesu 11
Effaith y newidiadau arfaethedig ar y sector 12
Datblygiad proffesiynol 12
Ysgolion a lleoliadau anghenion addysgol arbennig 12
Ymateb Llywodraeth Cymru 13

**Atodiad: Rhestr lawn o ymatebwyr** **14**

# Cyflwyniad

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Daugherty 2004, symudodd Cymru i ffwrdd oddi wrth fethodoleg yn seiliedig ar brofion i asesu dysgwyr at un sy'n seiliedig ar asesiadau athrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, mae hyder yn y system yn dibynnu ar ffydd yn y system asesu a bod y broses yn cael ei gweithredu'n gyson a chyda dealltwriaeth gyffredin o'r deilliannau a'r disgrifiadau lefel.

Mae canllaw manwl yn cael ei gyhoeddi i awdurdodau lleol ac ysgolion bob blwyddyn i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o safonau'r Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae adborth gan ysgolion, consortia rhanbarthol, undebau athrawon ac Estyn yn dangos bod angen gwneud mwy i wella dibynadwyedd a chysondeb asesiad athrawon.

Yn 2012 comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil gan yr Australian Council for Educational Research ar ffurf 'Ymchwiliad i asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 a 3'[1]. Daethpwyd i'r casgliad er bod y system asesiad athrawon gyfredol yng Nghymru yn cynnwys yr holl brif elfennau y mae systemau asesiad athrawon o safon uchel lefel y byd yn eu defnyddio, nid yw'r system Gymreig eto wedi cyflawni lefel yr hyfedredd sydd ei angen. Mewn ymateb i'r dystiolaeth hon ac i wella hyder yn y system asesiadau athrawon bresennol, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o gynigion a oedd yn sail i'r newidiadau a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Ar 12 Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i ganfod barn ar y newidiadau posibl hyn i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder mewn asesiadau athrawon. Y cynigion oedd a ddylid, a sut i:

- ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol (drwy gonsortia rhanbarthol) wella sut y cymhwysir asesiad athrawon
- cryfhau'r system bresennol o gymedroli grwpiau clwstwr drwy gyflwyno gofyniad statudol ar bob ysgol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i gymryd rhan
- ehangu'r system bresennol o gymedroli grwpiau clwstwr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i gynnwys y Cyfnod Sylfaen
- cyflwyno system newydd o wirio allanol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 6 Mawrth 2015.

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 90 o ymatebion. Roedd athrawon, penaethiaid, consortia rhanbarthol, undebau proffesiynol, cyrff llywodraeth leol a chwmnïau preifat sy'n gweithio yn y byd addysg ymhlith yr ymatebwyr.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn yr Atodiad (gweler tudalen 12).

[1] '[Ymchwiliad i asesiadau Athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3]', a baratowyd i Lywodraeth Cymru gan yr Australian Council for Educational Research, ac a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013.

## Crynodeb o'r ymatebion

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno â'r buddiannau a fyddai'n dod yn sgil ei gwneud yn ofynnol bod consortia rhanbarthol yn gosod gwella asesiad athrawon o fewn cynlluniau busnes blynyddol y consortia rhanbarthol (fel yn achos y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol) ar ôl 2015–16?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 62 |
| Anghytuno | 6 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 |
| Dim ymateb profforma | 11 |
| **Cyfanswm** | **90** |

Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn, a hynny yn yr atebion i'r cwestiwn caeedig ac yn y sylwadau ategol. Y prif sylwadau ategol oedd yn cynnwys y canlynol.

- Mae'n gwneud synnwyr i ddefnyddio'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol lle mae consortia addysg rhanbarthol yn gyfrifol am oruchwylio a sicrhau dibynadwyedd cymedroli asesiadau athrawon.
- Bydd yn bwysig creu fframwaith ar gyfer adrodd er mwyn hyrwyddo dulliau cyffredin rhwng y consortia rhanbarthol.
- Byddai hyn yn sicrhau bod canlyniadau'n ddibynadwy a bod modd eu cymharu rhwng ysgolion.
- Byddai hyn yn golygu cysondeb rhwng y consortia rhanbarthol ac yn sicrhau bod y data a fyddai'n deillio o gymharu perfformiad y consortia rhanbarthol yn ddibynadwy.
- Byddai'n pennu cysondeb o ran dibenion a dilyniant, cyn belled â bod y trefniadau'n canolbwyntio ar gryfhau trafodaethau proffesiynol a chyd-ddealltwriaeth o'r safonau.
- Mae'n gwneud defnydd da o gynlluniau busnes blynyddol y consortia rhanbarthol sy'n gyfrwng priodol i gyflawni a gwerthuso'r nodau polisi ac yn osgoi'r angen am ddeddfwriaeth ychwanegol ac adrodd cysylltiedig. Gellid datblygu dull trylwyr a chyson pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi canllaw a fframwaith ar gyfer adrodd o fewn y cynlluniau busnes.
- Y cynigion yw'r cam cywir ymlaen; fodd bynnag, dylai'r cam nesaf ddatblygu profiad yn y consortia rhanbarthol i gynghori ysgolion a lleoliadau arbennig, a chanolfannau arbenigol ar sut i gryfhau ac arwain cymedroli.

O'r ymatebion hynny nad oedd yn gefnogol, y prif sylwadau oedd yn cynnwys y canlynol.

- Gallai hyn roi cydweithwyr sy'n gweithio i'r consortia rhanbarthol mewn sefyllfa anodd, gan eu symud o weithio ag ysgolion mewn rôl gefnogol (yn cynnig cymorth i godi safonau) i rôl lle maent yn monitro ac yn beirniadu.
- Mae'r ymdrech hon yn gwario mwy o arian ar broses na all weithio.

Hefyd, mynegwyd y sylwadau mwy cyffredinol canlynol:

- Dylai'r cynllun busnes gynnwys darpariaethau ar gyfer cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ar gamau sy'n deillio o'r meysydd ar gyfer gwella a ganfuwyd yn neilliannau'r flwyddyn flaenorol.
- Dylai'r gofyniad ar y consortia rhanbarthol i wella asesiadau athrawon gynnwys gwella cymorth, gwella cymedroli, enghreifftiau eglur, a darparu cyfleoedd hyfforddi.
- Dylai gwaith y consortia rhanbarthol ar wella asesiadau athrawon adeiladu ar yr un prosesau a systemau ag y mae awdurdodau lleol wedi bod yn eu defnyddio'n llwyddiannus yn y blynyddoedd blaenorol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn falch i'r cynnig hwn gael cefnogaeth gref. Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen i weithredu hyn ar unwaith.

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno nad oes angen ar hyn o bryd i ni osod dyletswydd statudol benodol ar awdurdodau lleol i ddarparu adroddiad blynyddol ar wahân?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 39 |
| Anghytuno | 15 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 23 |
| Dim ymateb profforma | 13 |
| **Cyfanswm** | **90** |

Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn. Roedd y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol.

- Cyn gwneud unrhyw broses yn un statudol mae'n syniad da bob amser i roi prawf arni'n gyntaf ac yna adolygu'r llwyddiant.
- Nid yw'r dadleuon sydd wrth wraidd yr angen am ddeddfwriaeth newydd ar gyfer y gofyniad hwn yn argyhoeddi ar hyn o bryd.
- Nid oes rheswm dros ychwanegu baich adrodd statudol arall a thrwy hynny gost ychwanegol ar awdurdodau lleol.

Cafwyd nifer fach o ymatebion yn erbyn y cynnig hwn, gan gynnwys yn benodol y canlynol.

- Byddai gosod y ddyletswydd hon yn codi statws asesiadau athrawon o'r cychwyn cyntaf yng Nghymru gyfan, yn sicrhau cyfranogiad llawnach ac yn sicrhau ymgysylltu positif.
- Byddai adroddiad blynyddol statudol yn gwneud i awdurdodau lleol sicrhau bod amser ac arian ar gael i ysgolion i gynorthwyo â gwaith asesu a chymedroli.

- Dylid gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar wahân ar asesiadau athrawon yn eu hysgolion.
- Ni fyddai adroddiad blynyddol statudol yn golygu unrhyw faich biwrocrataidd diangen ar awdurdodau lleol, gan y byddai'r gwaith yn ymarferol yn cael ei wneud gan y cynghorwyr her sy'n gweithio o fewn consortia rhanbarthol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafwyd cefnogaeth resymol i'r cynnig hwn. O ganlyniad, ni fydd Llywodraeth Cymru yn deddfu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn.

**Cwestiwn 3** – A ydych chi'n cytuno y byddai cyfranogiad statudol mewn cymedroli grwpiau clwstwr ar ôl 2015–16 yn fuddiol i ddibynadwyedd athrawon?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 59 |
| Anghytuno | 11 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 |
| Dim ymateb  profforma | 9 |
| **Cyfanswm** | **90** |

Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn. Mae sylwadau cefnogol wedi'u nodi isod:

- Byddai cyfranogiad statudol yn galluogi ysgolion i gymharu cynnydd eu disgyblion ac i gyfnewid syniadau ar ddulliau dysgu ac asesu llwyddiannus, gan ledaenu arferion gorau drwy'r rhanbarth.
- Byddai'n helpu dibynadwyedd asesiadau athrawon ac yn sicrhau dilyniant o ran disgwyliadau'r staff.
- Byddai'n sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chynnwys ac na fyddai aros y tu allan i'r system yn opsiwn.
- Byddai'n gwneud i staff deimlo'n llawer mwy pendant yn ei dyfarniadau, a byddai'n arwain at gysondeb ac yn sefydlu gweithdrefnau cadarn ar yr un pryd.
- Byddai'n cynnig buddiannau hyfforddi proffesiynol, yn enwedig i athrawon newydd a llai profiadol.
- Byddai'n diogelu proffesiynoldeb staff ac yn gwarchod safonau pe bai'r lefelau'n cael eu herio.
- Byddai'n gwneud y pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 yn haws/yn fwy esmwyth.

Roedd y sylwadau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn nodi'r canlynol.

- Byddai anawsterau posibl yn codi pan fyddai asesiadau athrawon a wneir gan rai ysgolion yn cael eu herio gan eraill.

- Gall dyletswyddau statudol o bosibl effeithio ar lwyth gwaith athrawon a phenaethiaid.
- Gallai cyfarfodydd cymedroli clystyrau roi gormod o bwyslais ar lefelu darnau unigol o waith yn hytrach na chanolbwyntio ar y lefel y mae dysgwr yn gweithredu arni.
- Gallai cyfarfodydd cymedroli clystyrau arwain at rannu arferion drwg, yn hytrach na rhai da.
- Nid yw'r cynnig yn debygol o wella'r system lle mae lefelau a asesir gan athrawon yn cael eu dyfarnu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a ddilynir gan arholiadau wedi'u marcio'n allanol yn yr ysgol uwchradd (h.y. ni fydd yn lleihau'r bwlch cenedlaethol mewn dangosyddion rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a TGAU).

Hefyd, mynegwyd y safbwyntiau canlynol.

- Rhaid i waith a dogfennaeth disgyblion ddod o waith/arferion presennol yr ysgol yn hytrach na chreu gwaith/dogfennaeth ar gyfer cymedroli clystyrau'n unig.
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn lleiafrif o fewn y clystyrau mewn rhai ardaloedd daearyddol. Mae angen sicrhau felly bod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg gymedroli clystyrau priodol ym mhob man.
- Efallai na fydd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol y gallu i ymgymryd â'r gweithgareddau arfaethedig; rhaid sicrhau adnoddau digonol i gyd-fynd â'r strwythurau presennol.
- Dylai ysgolion gael eu hariannu'n uniongyrchol i gyflawni gweithgarwch sy'n seiliedig ar glystyrau, yn hytrach nag ariannu'r consortia rhanbarthol sydd â rôl hwyluso'n unig.
- Mae angen trefniadau i ddatrys anghydfodau.
- Dylid gosod dyletswydd ar bennaeth pob ysgol o fewn y clwstwr (neu uwch aelod o staff) i fod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd cymedroli'r clwstwr.
- Dylai'r gofynion ynglŷn â pha ddeunyddiau a ddylid eu cynhyrchu, pa bryd ac ym mhle fydd cyfarfodydd cymedroli'n cael eu cynnal gael eu cyfleu'n eglur i bob ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
- Dylid cynnwys ysgolion a lleoliadau arbennig mewn cymedroli clystyrau, er na ddylai'r diffiniad o'r term 'clwstwr' gael ei gyfyngu'n ddaearyddol a dylai fod yn hyblyg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafodd hyn gefnogaeth gref iawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen gyda gwaith paratoi'r ddeddfwriaeth berthnasol.

**Cwestiwn 4** – A ydych chi'n cytuno, mewn egwyddor, y dylai cymedroli grwpiau clwstwr gael ei gynnwys i gynnwys y Cyfnod Sylfaen?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 71 |
| Anghytuno | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 |
| Dim ymateb profforma | 10 |
| **Cyfanswm** | **90** |

Cafwyd cefnogaeth gref iawn i'r cynnig hwn. Roedd sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol.

- Mae'r pontio rhwng deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol yn faes lle mae anghysondeb mawr ac mae cymedroli clystyrau'n hanfodol i sicrhau bod asesiadau cywir yn cael eu gwneud ym mhob rhan o addysg yr ysgol.
- Nid dilysu'r deilliannau a ddyfernir yw'r unig nod – mae angen sicrhau hefyd bod ysgolion yn gallu mesur datblygiad a chyflawniad eu disgyblion yn gywir drwy gydol eu haddysg ysgol, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen.
- Byddai cymedroli clystyrau'n sicrhau bod athroniaeth addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn ddealladwy, yn cael ei gydnabod ac yn treiddio i bob rhan o'r system addysg yng Nghymru a'i fod yn rhan o'r ymagwedd gydgysylltiedig tuag at y cylch addysg cyfan.
- Byddai cymedroli clystyrau'n datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddeilliannau ac yn hybu rhannu arferion da. Byddai'n cryfhau'r system ac yn creu'r fframwaith ar gyfer cydweithredu mwy clos ac estynedig ar asesu.
- Mae cymedroli clystyrau'n herio'r dyfarniad ar ddisgyblion sydd ar y ffin a byddai felly'n effeithio ar ddibynadwyedd asesiadau athrawon.

Roedd yr ymatebion yn erbyn y cynnig hwn yn cynnwys y canlynol.

- Mae'r dulliau asesu presennol yn gostus, yn cymryd llawer o amser ac maent yn aneffeithiol ac ni fydd y cynnig hwn yn newid y sefyllfa.

Mynegwyd y sylwadau cyffredinol canlynol hefyd.

- Bydd rhyddhau staff ar ddiwedd y ddau gyfnod i fod yn bresennol mewn sesiynau cymedroli clystyrau'n gostus ac mae'n hanfodol bod arian ar gael i'w rhyddhau.
- Mae angen dilyniant mewn asesu rhwng deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, yna asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ac yn olaf, deilliannau TGAU.
- Dylai cymedroli grwpiau clwstwr gael ei ymestyn i gynnwys y Cyfnod Sylfaen, ond dim ond llythrennedd a rhifedd ddylai gael eu cymedroli er mwyn osgoi haenau o fiwrocratiaeth ddiangen.
- Dylai hwn fod yn fodel cynhwysol gydag ysgolion/unedau arbennig yn gallu bod yn rhan ohono hefyd (gan gadw mewn cof bod y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o berthnasol i ddisgyblion AAA).

- Mae ymestyn cymedroli'r grwpiau clwstwr i gynnwys y Cyfnod Sylfaen yn bwysig o safbwynt cysondeb a dilyniant, ond nid oes angen iddo fod yn statudol o anghenraid.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth gref iawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach beth fydd goblygiadau ymarferol system o'r fath cyn dychwelyd gyda chynigion ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn 5** – A ydych chi'n cytuno y byddai safonau asesiad athrawon yn gwella yn sgil cyflwyno system wirio allanol newydd ar ôl 2014–15?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 52 |
| Anghytuno | 13 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 |
| Dim ymateb profforma | 13 |
| **Cyfanswm** | **90** |

Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn. Roedd y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol.

- Byddai gwirio allanol yn sicrhau gwell atebolrwydd ac yn gwella cywirdeb a dibynadwyedd data.
- Byddai'n gwella hyder proffesiynol mewn asesiad athrawon a ffocws pob ysgol ar sicrhau bod y dystiolaeth i ategu dyfarniadau ar gael yn rhwydd a bod cyfeiriad clir atynt.
- Byddai'n amlygu'r anghysonderau mewn asesiadau athrawon ac yn cyfrannu at gysoni asesiadau athrawon.
- Bydd annibyniaeth y corff a haprwydd y samplo yn sicrhau nad yw canlyniadau asesiadau'n cael eu chwyddo i ateb disgwyliadau'r awdurdodau y tu hwnt i realiti gallu'r disgyblion.
- Bydd defnyddio samplo ar hap ac wedi'i dargedu ar gyfer proffiliau dysgwyr yn sicrhau dull teg a diagnostig.

Roedd y sylwadau gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu'n cynnwys y canlynol.

- Mae'n hawdd i hyfforddi disgyblion i gyflwyno gwaith yn eu llyfrau ar lefel benodol, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn gallu deall, cofio a defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu; y ffordd hawsaf o ddangos hyn yw drwy brofion ffurfiol.
- Dylid cael mwy o amser i ganiatáu i'r broses o ben i ben setlo cyn bod y rhaglen wirio allanol yn cael ei chyflwyno.
- I fod yn effeithiol, dylid cael cysylltiad agosach rhwng gwirio a pharatoadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 gan ddefnyddio'r FfLlRh (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol) fel cyfrwng a dylai gael ei gyflawni

gan glystyrau, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn hytrach na bod yn allanol.

Cafodd y sylwadau cyffredinol canlynol eu mynegi hefyd.

- Rhaid i'r corff ennyn ymddiriedaeth a pharch y proffesiwn a rhaid bod gan ei aelodaeth brofiad ymarferol o'r ystafell ddosbarth ac asesiad athrawon.
- Dylai gwirio allanol gael ei yrru gan y proffesiwn, a dylai fod yn adlewyrchiad ohono, ond dylai hefyd fod yn amhleidiol.
- Rhaid i'r corff gwirio allanol annibynnol weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid mewn ffordd dryloyw a rhaid iddo fod yn atebol.
- Rhaid i'r broses wirio allanol fod yn seiliedig ar wybodaeth ac yn cynorthwyo ysgolion yn hytrach na chael ei gweld fel lefel arall o atebolrwydd.
- Mae'n bendant y gallai'r gwaith hefyd helpu i ganfod cyfleoedd datblygiad proffesiynol ond ni ddylai'r datblygiad hwn ar gyfer ysgolion fod yn rhagnodol.
- Mae angen egluro'r term 'samplo wedi'i dargedu'.
- Os bydd y system yn cael ei chyflwyno, dylai, yn y pen draw, gynnwys ysgolion a lleoliadau anghenion arbennig, ar yr amod bod y gwirwyr yn ystyried samplau sy'n is na Deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen.
- Dylid cadw'r amser sydd ei angen i baratoi proffil ar gyfer samplo a dargedir mewn cof.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn. Dan arweiniad y Bartneriaeth Gwasanaeth Gyflawni Addysg , bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system wirio allanol grŵp clwstwr ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 o'r flwyddyn academaidd gyfredol ymlaen. Eleni bydd y rhaglen yn dechrau fel blwyddyn ragarweiniol, a dilynir hynny drwy sefydlu system wirio allanol lawn ar gyfer y ddwy flynedd academaidd ddilynol (h.y. 2015/16 a 2016/17).

**Cwestiwn 6** – A ydych chi'n hapus i'r model hwn gychwyn yn 2014–15 os bydd cytundeb, gyda deddfwriaeth yn dilyn yn unig os bydd angen?

| | |
|---|---|
| Cytuno | 39 |
| Anghytuno | 25 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 15 |
| Dim ymateb profforma | 11 |
| **Cyfanswm** | **90** |

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn. Roedd y sylwadau canlynol yn cefnogi'r cynnig.

- Mae digon o gytundeb proffesiynol yn y wlad fel y gellid sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon heb yr angen i ddeddfu.
- Ar yr amod bod y model a’r cymorth cysylltiedig yn ddatblygiad positif, ni ddylai fod angen deddfwriaeth.
- Yr unig ffordd o sicrhau dull cyson a system deg, gadarn a dibynadwy yw drwy ddechrau â model gwirio allanol penodedig ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru a sicrhau bod y broses mor effeithiol â phosibl cyn ei gwneud yn statudol.
- Mae dechrau yn 2014/15 yn briodol gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod gwendidau mawr mewn asesiad athrawon, sy’n sefydledig a hirhoedlog. Gorau po gyntaf y bydd y dilysrwydd, dibynadwyedd a chywirdeb yn gwella.

O’r chwe chynnig yr ymgynghorwyd arnynt y cynnig hwn oedd yr un a oedd wedi denu’r nifer fwyaf o wrthwynebiadau. Roedd yr ymatebion yn erbyn y cynnig hwn yn cynnwys y canlynol.

- Nid oes digon o amser i gwblhau’r broses yn gywir ac yn drylwyr yn y flwyddyn academaidd hon.
- Er mwyn rhoi pwys ar wirio allanol rhaid ei wneud yn statudol ar unwaith.
- Ni ddylai gwirio allanol byth fod yn statudol gan y byddai hynny’n golygu mwy o brosesau a gwaith papur, ond llai o amser i wella safonau yn yr ystafell ddosbarth.
- Boed gwirio allanol yn statudol ai peidio, byddai’n cael ei gynnal ochr yn ochr â’r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, arholiadau TGAU a Safon Uwch ac felly byddai’n golygu baich sylweddol ar athrawon uwchradd.

Hefyd, cafwyd y sylwadau ychwanegol.

- Ni all asesiadau athrawon roi darlun clir o gyrhaeddiad dysgwyr ac felly dylid cael profion ffurfiol yn ei le yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.
- Nid yw ysgolion ‘cynhwysol’ yn wirioneddol gynhwysol oni bai bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu cynnwys yn y gweithgareddau gwirio allanol.
- Mae angen egluro’r holl broses, gan gynnwys pob grŵp dysgwyr a’r mathau o ysgolion sy’n gysylltiedig, cyn cyflwyno’r system newydd i sicrhau eglurder.
- Dylid darparu rhaglen hyfforddi eang i godi ymwybyddiaeth o’r gofynion (e.e. enghreifftiau o broffiliau a phortffolios dysgwyr) cyn cyflwyno’r rhaglen gwirio allanol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafodd y cynnig hwn gefnogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, bydd y datblygiadau’n cael eu monitro ac yn ddibynnol ar y canlyniadau ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2016/17 gall y sefyllfa gael ei hadolygu.

Roedd **Cwestiwn 7** yn gwahodd sylwadau ar faterion cysylltiedig nad oedd wedi cael sylw penodol yn yr ymgynghoriad.

Cafwyd cyfanswm o 59 o sylwadau, a oedd yn cynnwys y canlynol.

**Model asesu**

- Dylai newidiadau arfaethedig gyfrannu at fodel asesu hollgynhwysol ar gyfer dysgwyr o bob gallu a math gan gynnwys dysgwyr sydd ag iaith gyntaf heblaw am Saesneg, dysgwyr galluog a thalentog, sydd ag anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn ogystal â dysgwyr ag awtistiaeth.
- Rhaid alinio asesiadau rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Rhaid sicrhau bod un lefel benodedig o lefelau a rhaid iddo gymhwyso'r deilliannau a'r lefelau os nad ydynt yn cyfateb.
- Mae'r diffyg cysondeb yn deillio o'r ffaith bod y nifer o opsiynau sydd ar gael ar gyfer asesiad cyfunol plentyn yn gyfyngedig iawn.
- Byddai deunyddiau enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod yn ddefnyddiol iawn i sicrhau cysondeb cenedlaethol.
- I fod yn gyson, dylai gwirio gael ei drefnu ar draws ffiniau awdurdodau lleol.
- Mae angen i ofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3, TGAU a Safon Uwch gael eu halinio'n well i ganiatáu datblygiad esmwyth a chyson.

**Disgrifiadau lefel**

- Mae'r disgrifiadau lefel yn y cwricwlwm cenedlaethol yn amwys ac mae weithiau'n anodd gwahaniaethu rhwng y lefelau. Os bydd y defnydd o lefelau a deilliannau'n parhau, gellid sicrhau cysondeb drwy gyflwyno is-lefelau o fewn lefel/deilliant.
- Mae pwysau ar athrawon ac ysgolion i wneud y broses o benderfynu ar y lefel yn fwy 'gwyddonol/ffeithiol' sy'n beth amhosibl i'w wneud am fod y disgrifiadau o ddeilliannau a lefelau'n cynnwys nifer o ddatganiadau gwahanol.
- Ar hyn o bryd nid oes system i roi sylw i'r ysgolion yr ymddengys sydd wedi aseinio'r lefelau mewn ffordd anghyson. Ymddengys fod y broses gymedroli'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, a bod unrhyw drafodaethau rhwng ysgolion uwchradd a chynradd yn symud i'r garfan newydd ym mis Medi.
- Byddai rhestr wirio symlach o safonau cenedlaethol gyda meini prawf penodol ar gyfer cyflawni'r gwahanol lefelau yn helpu athrawon.

**Dulliau asesu**

- Dylid defnyddio'r prawf gallu gwybyddol (CAT) i asesu gan fod y prawf hwn yn cynorthwyo athrawon i fesur potensial disgyblion yn fanwl ac i ganfod cryfderau a gwendidau.

**Effaith y newidiadau arfaethedig ar y sector**

- Rhaid sicrhau adnoddau ar gyfer y newidiadau arfaethedig er mwyn helpu athrawon i ymdopi â llwyth gwaith ychwanegol, i dalu am staff llanw a chostau gweinyddol.
- Er bod sicrhau dibynadwyedd a chysondeb asesiadau athrawon yn bwysig, dylid cofio bod pob newid yn costio arian a bod angen adnoddau, felly dylid darparu buddsoddiad ariannol, dynol a deunyddiau ac amser realistig i dalu'r costau gweithredu.
- Mae'r consortia rhanbarthol yn awr yn barod i gael rôl allweddol i wella asesiadau athrawon, ond eto nid ydynt yn gwbl weithredol nac yn effeithiol. Hefyd, gall ad-drefnu llywodraeth leol effeithio ar waith y consortia rhanbarthol.
- Gellir gweld amrywiadau mawr rhwng canlyniadau'r prawf a deilliannau asesiadau athrawon ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 6. Dylai deilliannau profion hefyd gael rôl amlycach i farnu ar ddibynadwyedd a chywirdeb asesiadau athrawon.
- Dylai unrhyw gynnig neu dylai bob cynnig a fabwysiedir o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn gael eu gweithredu yng ngoleuni'r argymhellion a wnaethpwyd gan adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

**Datblygiad proffesiynol**

- Os yw asesiad athrawon yn mynd i fod yn effeithiol bydd angen sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi'n dda, bod eu harbenigedd yn cael ei ategu gan gyngor y consortia rhanbarthol, a hefyd bod monitro'n digwydd ar draws consortia.

**Ysgolion a lleoliadau anghenion addysgol arbennig**

- Dylai'r newidiadau arfaethedig gael eu hymestyn i gynnwys ysgolion a lleoliadau AAA. Fodd bynnag, mae angen ystyried gofynion penodol y sector addysgol hwn.
- Ni ddylai clystyrau fod yn seiliedig ar leoliad daearyddol; dylid darparu cyllid digonol ar gyfer gweithgareddau cymedroli a hyfforddi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ofalus iawn i'r awgrymiadau a'r arsylwadau a roddwyd.

Edrychir ar faterion fel y model a dulliau asesu, y disgrifiadau lefel ac effaith y newidiadau arfaethedig ar y sector yng ngoleuni argymhellion Adolygiad yr Athro Donaldson[2].

Er enghraifft, rhoddir sylw arbennig i'r problemau a'r awgrymiadau sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o gynnwys ysgolion a lleoliadau addysgol arbennig yn y newidiadau arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau datblygiad proffesiynol ar gyfer y sawl sy'n gweithio yn y sector addysg a byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddarparu'r hyfforddiant perthnasol ochr yn ochr â chyflwyno'r gwelliannau a awgrymwyd ar gyfer asesiadau athrawon.

[2] Adroddiad yr Athro Donaldson ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu – *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*.

## Atodiad: Rhestr lawn o ymatebwyr

Ysgol y Bannau Aberhonddu
Ysgol Uwchradd y Drenewydd
Ysgol Gynradd Trelewis
Ysgol y Gader
Ysgol Cefn Saeson
Ysgol Uwchradd Afon Taf
Ysgol Uwchradd Llysweri
Ysgol Gynradd Talacharn a Thremoilet
Ysgol Glan Morfa
Ysgol Gynradd Casllwchwr
Ysgol Gynradd Brynmill
Ysgol Gyfun Treforys
Ysgol Gymraeg Glan Cleddau
Ysgol Gynradd Gymunedol y Parc
Consortiwm De-Orllewin a Chanolbarth Cymru
Ysgol Gyfun Gŵyr
NUT Cymru
Ysgol Pentrehafod
Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant
Ysgol Gynradd Moorland
Ysgol Plasmawr
Y Gwasanaeth Addysg Catholig
NAHT Cymru
Ysgol Gynradd Gatholig St Margarets
Ysgol Fabanod St Joseff
Ysgol Gynradd Awel y Môr
Ysgol Gynradd y Groes
Ysgol Gynradd Blaenhonddan
Ysgol Gynradd Gnoll
Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd
Ysgol Gynradd Ynysmaerdy
Ysgol Gynradd Crellnant
Ysgol Gynradd Pen Afon
Ysgol Gynradd y Groes
Ynysmaerdy Castell-nedd Port Talbot
Clwstwr Sandfields
Ysgol Gynradd Traethmelyn
Clwstwr Ystalyfera
Sky Rocket Training
Ysgol Tredegar
GTCW/CyngAcc
Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref
Ysgol Tonyrefail
Awdurdod Lleol Bro Morgannwg
Ysgol CCC
Ysgol Gynradd Llysfaen
GwE

Cyngor Sir y Fflint
Estyn
Ysgol Pencyae
Ranelagh International Ltd.
Awdurdod Lleol Abertawe
Ysgol Maesydderwen
Ysgol Portfield
Ysgol Heol Goffa
Ysgol Penybryn
Heronsbridge School
Ysgol Hen Felin
Ysgol Crownbridge
Ysgol Arbennig Maes Ebbw
Ysgol Crownbridge
Ysgol Pen-y-Cwm
Ysgol Greenhill
Tŷ Gwyn
YBC
Ysgol Trinity Fields
Ysgol Penmaes
ASCL Cymru
Ysgol St Brigid
YGG Pontybrenin
Awdurdod Lleol Powys
CYDAG Uwchradd
ATL Cymru
NASUWT
ERW
Ysgol Maesyrhandir CP
Ysgol Uwchradd y Trallwng
CLlLC